Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1111 (Cy. 268)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 80(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"), rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ("GCC") gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol penodol a gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol. Mae adran 110(1) o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid hefyd i GCC gadw rhestr o'r personau y mae eu cofnodion yn y gofrestr wedi eu dileu o dan yr amgylchiadau a bennir yn adran 110(2) a (4) o'r Ddeddf.

Yn y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr a chyhoeddi'r rhestr, neu wybodaeth benodedig o'r rhestr, yn unol ag adran 110(6) o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1111 (Cy. 268)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Tachwedd 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *22 Tachwedd 2016* |
| *Yn dod i rym* | *3 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 110(6) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "GCC" ("*SCW*") yw Gofal Cymdeithasol Cymru(**2**).

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) Ailenwyd Cyngor Gofal Cymru yn Ofal Cymdeithasol Cymru gan adran 67(3) o'r Ddeddf.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Cynnwys y rhestr**

**3.** Rhaid i gofnod ar y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr y mae rhaid i GCC ei chadw o dan adran 110(1) o'r Ddeddf ddangos mewn cysylltiad â phob person—

(a) enw'r person,

(b) y dyddiad y cafodd y person ei dynnu oddi ar y gofrestr, ac

(c) pa un neu ba rai o'r amgylchiadau yn adran 110(2) neu (4) o'r Ddeddf a berodd i'w gofnod yn y gofrestr gael ei ddileu.

**Cyhoeddi**

**4.**—(1) Rhaid i GCC gyhoeddi ar ei wefan restr gyfredol o'r personau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr, y mae rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraffau (a) i (c) o reoliad 3.

(2) Rhaid i GCC gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol a wneir gan berson i gael copi o'r rhestr neu wybodaeth benodedig o'r rhestr.

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru
15 Tachwedd 2016